POLICE AND CRIME PANEL

PANEL HEDDLU A THROSEDD

PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

YSTYRIED ADRODDIAD BLYNYDDOL COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

Cefndir

Gwnaed yr adroddiad hwn yn unol â dyletswydd statudol y Panel a gynhwysir yn Adran 28(4) (d) o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011.

Adolygiad o Adroddiad Blynyddol Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd

Ystyriodd y Panel Adroddiad Blynyddol 2017/18 Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn ei gyfarfod ar 3 Rhagfyr 2018. Dyma ail adroddiad blynyddol y Panel gan roi gwybodaeth am y blaenoriaethau plismona a osodwyd gan Mr. Arfon Jones.

Roedd yr adroddiad hefyd yn rhoi trosolwg o'r flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys prif gyflawniadau'r flwyddyn, gwybodaeth am yr heriau ariannol a gweledigaeth Mr. Jones ar gyfer y dyfodol fel Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

Roedd y Panel yn cydnabod cyflawniadau llynedd ac yn croesawu'r cipolwg o 'ddiwrnod ym mywyd Heddlu Gogledd Cymru' yn arbennig a oedd yn crynhoi'r galw newydd sy'n wynebu'r Heddlu yn ddyddiol. O ran y nifer o alwadau y derbynnir mewn unrhyw ddiwrnod, roedd y Panel yn cwestiynu sawl galwad oedd yn ymwneud ag achosion iechyd meddwl. Cytunodd y Comisiynydd i gynnwys y wybodaeth yn ei adroddiad.

Argymhellion

Bod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn derbyn Adroddiad Blynyddol Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar gyfer 2017/18 yn ddarostyngedig i gynnwys gwybodaeth, yn ymwneud â'r nifer o alwadau oedd yn berthnasol i achosion iechyd meddwl.